**(HCC 1005)**

**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10.30am trwy gyfrwng Microsoft Teams ddydd Iau 6 Mai 2021**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol:** | Cath Smith (Cadeirydd)<br>Melody Chapman, Gareth Wynn Davies, Huw Davies, John T Davies, Rhys Davies, Jack Evershed, Rachael Madeley Davies, Prys Morgan, Emlyn Roberts a Claire Williams |
| **Trwy Wahoddiad:** | Michael Freedman (Sefydliad Dosbarthu Nwyddau Groser)<br>Maria Richards (Llywodraeth Cymru)<br>Ben Scott (Sefydliad Dosbarthu Nwyddau Groser) |
| **Y Weithrediaeth yn bresennol:** | Gwyn Howells (Prif Weithredwr)<br>Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)<br>Kirsten Hughes (Swyddog Gweithredol Cig Coch) ( Eitemau 6d a 6e)<br>Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)<br>Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)<br>John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau)<br>Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu) |

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i seithfed cyfarfod ffurfiol y Bwrdd i gael ei gynnal yn rhithiol oddi ar y pandemig Coronafeirws (Covid-19).

Estynnwyd croeso arbennig i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd, sef Jack Evershed ac Emlyn Roberts, a oedd yn mynychu eu cyfarfod ffurfiol cyntaf o Fwrdd HCC.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Weithrediaeth a Llywodraeth Cymru am ddarparu'r rhaglen sefydlu addysgiadol iddi hi ei hun ac i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd, a gynhaliwyd ar 12, 13 a 15 Ebrill 2021.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu ers dechrau'n Gadeirydd HCC: -

1 Ebrill 2021 – Cyfarfod diweddaru Bwrdd HCC

8 Ebrill 2021 – Mynychodd y Cadeirydd a Rheolwr Datblygu'r Diwydiant gyfarfod adborth gyda Chadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Iechyd a Lles Anifeiliaid Cnoi Cil (RHWG) yn dilyn digwyddiad Pedair Gwlad y Grŵp a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2021

28 Ebrill 2021 – Mynychodd y Cadeirydd ei chyfarfod olaf fel Cadeirydd Gweithgor Iechyd a Lles Diadelloedd a Buchesi HCC.

**Cyfarfodydd rhagarweiniol y Cadeirydd**

16 Ebrill 2021 – Llywydd a Swyddogion NFU Cymru

19 Ebrill 2021 – Llywydd a Swyddogion Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)

21 Ebrill 2021 – Cymdeithas y Cyflenwyr Cig Annibynnol (AIMS – Norman Bagley, Sylfaenydd a Phennaeth Polisi)

23 Ebrill 2021 – Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw ( Is-Gadeirydd, Simon Jones a Chris Dodds, Ysgrifennydd Gweithredol)

28 Ebrill 2021 – Cynrychiolwyr o Gymdeithas Proseswyr Cig Prydain

29 Ebrill 2021 – Cynrychiolwyr o Farmers Fresh

30 Ebrill 2021 - Swyddogion o'r Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol (NSA).

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod gan Mark Alexander, Llywodraeth Cymru.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Dywedodd Aelod o'r Bwrdd, Huw Davies, ei fod bellach yn cael ei gyflogi gan Cottagequinn Farms LLP.

6c. **Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 31 Mawrth 2021 (HCC 999)**

Am fod y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol yn gorfod gadael yn gynnar, ymdriniwyd ag Eitem Agenda 6c yn gynharach.

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafwyd crynhoad gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Ymadawodd y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

4. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 4 Mawrth 2021 (HCC 996)**

Cymerwyd cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 4 Mawrth 2021 fel y'i darllenwyd, a chawsant eu cymeradwyo gan y Bwrdd a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

Rhoddwyd y gorau dros dro i ran ffurfiol cyfarfod y Bwrdd er mwyn cael cyflwyniad gan Michael Freedman, Uwch Reolwr Mewnwelediad Siopwyr y Sefydliad Dosbarthu Nwyddau Groser (IGD). Rhoddodd gipolwg ar effaith pandemig Covid-19 ar yr

economi, y sectorau gwasanaeth bwyd a mân-werthu, yn ogystal â gwybodaeth am agweddau a thueddiadau siopwyr.

Cydnabuwyd ei bod yn anodd rhagweld adferiad y sector Gwasanaeth Bwyd. Fodd bynnag, rhagwelwyd y byddai twf yn y farchnad wrth i'r broses o ddatgloi rheoliadau Covid-19 barhau ac wrth i weithwyr ddechrau dychwelyd i'w gweithleoedd.

Diolchodd y Cadeirydd i Michael Freedman am y cyflwyniad llawn gwybodaeth, a chymerwyd cwestiynau gan y Bwrdd.

5. **<u>Materion yn codi</u>**

*<u>Cynnydd yn nifer y Lloi yn y Fuches Odro</u>*

Dywedodd Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant fod yr uchod wedi cael ei drafod gan y Byrddau Ardoll. Cafwyd trafodaeth ynghylch a oedd y cyflenwad o loi gwryw du a gwyn yn ystumio'r farchnad er gwaeth ar hyn o bryd. Nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bu cynnydd yn nifer y lloi du a gwyn ar y farchnad, yn bennaf am fod defnydd cynyddol yn cael ei wneud o semen rhyw-penodol yn y sector laeth. Mae'n ymddangos fod y diwydiant llaeth wedi ymateb ac addasu'n dda i'r her o gynhyrchu mwy o loi heb ostyngiad mewn ansawdd.

Byddai'r mater yn dal i gael ei adolygu a byddai'r Bwrdd yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau.

*<u>Cynllun Ardoll Cig Coch</u>*

Nodwyd bod cyfathrebiad ar y cyd wedi'i gyhoeddi ar 22 Mawrth 2021 gan y tri chorff ardoll – AHDB, Quality Meat Scotland (QMS) a HCC – yn hysbysu'r diwydiant bod ailddosbarthiad yr ardollau cig coch i ystyried symudiadau trawsffiniol da byw rhwng Cymru, Lloegr a'r Alban wedi cael ei gytuno gan Weinidogion a byddai'r newid yn dod i rym ar 1 Ebrill 2021.

*<u>Cynllun Corfforaethol HCC 2021/2024 a Chynllun Gweithredol 2021/2022 (HCC 988)</u>*

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod llythyr cylch gwaith dyddiedig 23 Mawrth 2021 gan y Gweinidog wedi dod i law. Roedd y Prif Weithredwr wedi cydnabod y llythyr a chadarnhau fod y camau gweithredu a nodwyd gan y Gweinidog ar gyfer HCC yn ystod 2021 / 2022 yn unol â'r gweithgareddau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredol HCC ar gyfer y flwyddyn.

*<u>Gwerthusiadau Bwrdd HCC 2021</u>*

Roedd adroddiad ar yr uchod wedi'i baratoi gan y Cadeirydd blaenorol. Câi'r adroddiad ei adolygu gan y Cadeirydd a byddai unrhyw gamau gweithredu neu feysydd i'w datblygu yn cael y sylw priodol.

## 6. Adroddiadau HCC

a. Gweithgareddau (HCC 997)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd gweithgareddau allweddol HCC eu hamlygu gan y Weithrediaeth.

b. Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 998)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd .

c. Ariannol – Incwm a Gwariant a’r Fantolen tan 31 Mawrth 2021 (HCC 999)

Gweler cyfeiriad ar dudalen 2

d. I dderbyn a chymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i ddangosyddion perfformiad allweddol y Cynllun Corfforaethol 2021/2024 a'r Chynllun Gweithredol 2021/2022 mewn perthynas â gwerthiannau allforio (HCC 1000)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd ei gyflwyno gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod Cyllid a Thollau EM (HMRC) wedi hysbysu defnyddwyr data am newid yn y ffordd y byddai ystadegau allforio Prydain i'r UE yn cael eu hel at ei gilydd. Byddai’r newidiadau hyn yn cael effaith ar Ystadegau’r Fasnach mewn Nwyddau o fis Mawrth 2021; mae HCC yn defnyddio'r rhain i fesur cynnydd yn ôl Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy’n ymwneud â gweithgareddau allforio. Roedd y newidiadau'n golygu na fyddai modd cymharu data'n uniongyrchol bellach ag ystadegau allforio a gyhoeddwyd yn flaenorol.

Yn ogystal, bu newid mewn patrymau masnachu; roedd llawer o allforwyr y DG bellach yn allforio llwyth o gynnyrch i un cyrchfan yn yr UE ar gyfer trosglwyddiad mewnol pellach wedi hynny o fewn yr UE. Byddai gan y newid hwn mewn masnachu oblygiadau ar gyfer monitro data, oherwydd dim ond i’r gyrchfan/wlad gyntaf y cofnodir allforion gan Gyllid a Thollau EM (nid y cyrchfannau/gwledydd dilynol).

Felly, cynigiwyd y newidiadau canlynol i'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer allforion o fewn Cynllun Corfforaethol 2021 / 2024 a Chynllun Gweithredol 2021 / 2022:

- Byddai allforion yn cael eu mesur ym marchnadoedd yr UE a'r Swistir, marchnadoedd sy'n datblygu (Hong Kong, Singapôr, Canada a'r Emiradau Arabaidd Unedig) a marchnadoedd newydd (Siapan, Catar, Gwlad yr Iorddonen, Coweit a Sawdi-Arabia)
- Sefydlwyd llinellau sylfaen ar gyfer allforion wrth ddefnyddio data Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer 2019/2020
- Pennwyd targedau newydd a oedd yn uchelgeisiol, ond eto'n realistig.

Yn dilyn trafodaeth, cafodd yr uchod ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

e. I dderbyn papur ar Adolygiad Diwedd Blwyddyn o Gynllun Gweithredol HCC 2020 / 2021 (HCC 1001)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd ei gyflwyno gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch.

Roedd y papur adolygu 12-mis yn amlinellu perfformiad HCC yn ôl y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a bennwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2020 / 2021. Nodwyd bod gallu HCC i gyflawni yn ystod y cyfnod hwn wedi dioddef yn rhannol oherwydd y pandemig Covid- 19.

Roedd y perfformiad yn ôl targedau mewn codau lliw o fewn y ddogfen i ddangos cynnydd perfformiad. Dywedodd y Swyddog Gweithredol Cig Coch fod 23 o ddangosyddion perfformiad allweddol wedi'u pennu yn y Cynllun Gweithredol ar gyfer 2020 / 2021:

13 targed (mewn gwyrdd) wedi'u cyflawni
8 targed (mewn oren) heb eu cyflawni'n llawn oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth HCC (Covid-19)
2 darged (mewn porffor) heb eu cyflawni am nad oedd modd cymharu'r canlyniadau â rhai 2019 / 2020 oherwydd newid yn y ffordd o fesur.

Rhoddodd y Swyddog Gweithredol Cig Coch ddiweddariad manwl am y targedau na chafodd eu cyflawni'n llawn ac atebodd gwestiynau gan y Bwrdd.

f. Digwyddiadau i ddod (HCC 1002)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd.

Nodwyd y byddai gan HCC ran i'w chwarae yn Uwchgynhadledd Systemau Bwyd y Cenhedloedd Unedig (13 Medi 2021) ac Uwchgynhadledd COP 26, Glasgow (1–12 Tachwedd 2021) ac y byddai'n trafod y digwyddiadau hyn gyda Llywodraeth Cymru.

7. **Pwyllgorau HCC**

***Gweithgor Iechyd Diadelloedd a Buchesi***

a. I dderbyn adroddiad llafar am y Pwyllgor a gynhaliwyd ddydd Mercher 28 Ebrill 2021

Cafwyd adroddiad llafar am yr uchod gan Gadeirydd y Grŵp:

- Rhoddwyd diweddariad i'r Grŵp Iechyd a Lles Anifeiliaid Cnoi Cil (RHWG) am negeseuon allweddol, blaenoriaethau a chydweithio rhwng pedair gwlad y DG. Yng Nghymru y cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Pedair Gwlad, ar 24 Mawrth 2021. Roedd yn canolbwyntio ar iechyd a lles anifeiliaid a hyfforddiant. Derbyniwyd adborth cadarnhaol yn dilyn y cyfarfod gan y rhai a oedd yn bresennol
- Rhoddwyd cyflwyniad i'r Grŵp ar rôl a gweithgareddau'r Ysgol Filfeddygaeth sydd newydd ei sefydlu yn Aberystwyth, gan Dr Darrel Abernethy, Prifysgol Aberystwyth
- Rhoddwyd diweddariadau i'r Grŵp ar waith a gweithgareddau presennol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Gwaredu BVD, Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol a gwaith Prosiect Stoc+ HCC
- Byddai Aelod o'r Bwrdd, Huw Davies, yn cymryd drosodd fel Cadeirydd y Grŵp yn y dyfodol.

***Rheolwr Cysylltiadau'r Diwydiant***

b. I dderbyn cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 25 Chwefror 2021 (HCC 1003)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

***Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg***

c. I fabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Iau 4 Mawrth 2021 (HCC 1004)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

***Y Pwyllgor Cyfathrebu***

d. I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Cyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 6 Mai 2021

Cafwyd adroddiad llafar am yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

8. **Unrhyw fater arall**

*Rhaglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014 – 2020)*

Rhoddwyd diweddariad ynglŷn â'r uchod.

9. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Diweddaru'r Bwrdd drwy gyfrwng Teams – Dydd Iau 3 Mehefin 2021 am 9.30am
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 1 Gorffennaf 2021. Yr amser heb ei drefnu